Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-Garth Tymor yr Hydref 2009

Pererinion Bethlehem

Dilyn ôl traed Mari a Dewi!

Taith yr Hughesiaid

Rhai da am ymateb yw aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Pan awgrymwyd gan Cytûn y gellid codi arian i gael rhannau o'r Beibl mewn Braille yn Gymraeg ar gyfer y deillion fe welodd un teulu y cyfle i gyplysu ymweliad ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Y Bala a chynllun i godi arian i'r fentr.

"Fe gerddwn ni o Lanfihangel y Pennant i'r Bala fel y gwnaeth Mari Jones gynt i gasglu Beibl" medde nhw. A dyna ddechrau cynllunio.

Mae'r tad, Ian Hughes, yn Ymgynghorydd Seiciatryddol yng Nghaerdydd ac Ann, ei wraig, yn gyn-ffisiotherapydd a bellach yn athrawes gynorthwyol. Disgyblion yn Ysgol Gwaelod-y-garth yw Dylan ac Elinor. Cyhoeddwyd yn y capel fod y teulu am fentro cerdded chwe milltir ar hugain ddechrau Awst a chaed ymateb ardderchog am nawdd. Addawyd dros £400.

Ar faes yr Eisteddfod dechreuodd yr holi. Tybed pryd bydd y teulu bach yn mentro arni? A dyna ryddhad, er eu bod wedi blino'n dwll, oedd eu gweld ar y maes fore Gwener a chlywed eu hargraffiadau.

Sut daith oedd hi dros y mynyddoedd? Mae tri o'r pedwar yn adrodd yr hanes yn y rhifyn hwn.

Huw - y pererindotwr profiadol

Mae Huw Roberts, y cyfrifydd o'r Eglwys Newydd, yn hen gyfarwydd â rhedeg rasys traws gwlad ac y mae hyd yn oed wedi teithio rhan o Sbaen i godi arian at achos dyngarol. Ond hyd yma, dyw e erioed wedi dilyn ôl troed Dewi Sant o Llanddewibrefi o Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Ond mae'n bwriadu gwneud hynny'r Pasg nesaf yma – a hwyrach yn wir eich bod wedi gweld ei lun yn ddiweddar ar bosteri a hysbysebion Sefydliad y Prydeinig y Galon (BHF) a Vodaphone yn nodi ei fwriad.

Fe gododd Huw dros £9,000 pan gerddodd i Santiago de Compostela a'i obaith yw gwneud yn well na hynny ar y daith hon. Cewch ragor o fanylion gan Huw yn y rhifyn hwn.

Yn y rhifyn hwn:

- Cwrdd Diolchgarwch
- Dwy Bererindod
- Dwy Briodas
- Bedyddio Gwion
- Newyddion am aelodau
- Suliau hyd Rhagfyr 2010
- Teyrnged i Idris

Ffurfio Cymdeithas Drws Agored

Wedi i nifer dda ohonoch chi ddangos diddordeb ac ymateb i'r syniad gan y Gweinidog o gychwyn cylch trafod achlysurol i gwrdd gyda'r nos, daeth yn amlwg mai Nos Iau oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

Yng ngeiriau Alun: "Yr awgrym oedd galw'r digwyddiad yn Gymdeithas Drws Agored. Bydde gwahoddiad agored i bobl 'alw i mewn', heb unrhyw ddisgwyliad i fynychu bob tro, er gwyched hynny."

Cwrdd ar aelwyd yn hytrach nag yn y Festri oedd un syniad, ond yn ystod y noson gyntaf, nos Iau, 22 Hydref, penderfynwyd mai yn y Festri bydd y Drws Agored yn cyfarfod a hynny unwaith y mis. Testun y drafodaeth oedd rhai o'r syniadau yn llyfr Vivian Jones "Menter Ffydd". Cofiwch felly am gyfarfod mis Tachwedd - 'mae'r drws ar agor'.

Ysgrifennydd Bethlehem:
Rhys Dafis
Rhif Ffôn:029 20 89 13 60
rhysdafis@aim.com

Ar y Dde:
Plant yr Ysgol Sul a'u hathrawon yn ystod y Cwrdd Diolchgarwch. (Lluniau eraill tu fewn)

Cofio Idris Hughes

Dadlaith Murrayfield i Clive Rowlands!

[Yn ein hoedfa gymun mis Medi, bu'r Parchedig Ddr R. Alun Evans, yn atgoffa aelodau Bethlehem am y cymeriad tawel ond lliwgar a gollwyd o'n plith yn ystod mis Awst. Dyma dalfyriad o'i deyrnged i Idris yn yr angladd a gyhoeddwyd yn llawnach yn Y Tyst.]

Rebel oedd Idris; rebel hynod hoffus a direidus, diymhongar a chymwynasgar. Scowsar! Er ei eni yn agos at gae pêl droed Anfield, cefnogwr Everton oedd e, fel ei dad. A dweud y gwir, dyn rygbi a chriced oedd Idris. Un a dreuliodd ei oes yn llythrennol yn dwyn pŵer i gartrefi a phentrefi a threfi a dinasoedd a chyfandiroedd. Trwy rym ei gymeriad yr oedd hefyd yn dwyn egni i fywydau pawb a'i hadnabu. Sbarcyn!

Pam rebel? Fe'i maged ar aelwyd Gymraeg i siarad Cymraeg. Ond fe gollodd ei Gymraeg. A lle gwahanol o ran Cymreictod i'r Lerpwl presennol oedd Lerpwl dauddegau y ganrif ddiwethaf.

Canol dauddegau'r ganrif honno oedd y cyfnod mwyaf cyffrous posibl ym mywyd Cymry Lerpwl. Dyma adeg y llif mwyaf o Gymry i'r ddinas ac o'r herwydd yr oedd bywiogrwydd a gweithgarwch y sefydliadau Cymraeg a Chymreig yn ei hanterth.

Yr oedd dros hanner cant o gapeli ac eglwysi a neuaddau cenhadol wedi eu codi ar lannau Mersi ar gyfer y Cymry crefyddol. Ond doedd Idris ddim yn Gymro crefyddol. Ar fater iaith a chrefydd roedd e'n rebel. Ond fe ddoi newid.

I'r Llynges

Ymunodd Idris â'r llynges yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Doedd fawr ryfedd bod bachgen ifanc o un o borthladdoedd mwyaf Lloegr yn troi at y môr. Ond fe ddoi newid. Ac ymhen blynyddoedd roedd Idris yn ymaelodi gyda'r Crynwyr, y gymdeithas grefyddol mwyaf heddychlon a gwrthwynebus i ryfel o'r cyfan. Ond roedd hi'n nodweddiadol o Idris i fod yn ei chanol hi. Bu felly drwy ei oes. Yn ystod y rhyfel fe wasanaethodd ar fwrdd llongau-sgubo-ffrwydron ac ar fwrdd y llong ddistryw - y Thisbe. Un bore ar y cefnfor daeth cyhoeddiad ar uchelseinydd y llong. Ar waetha'r gwynt a sŵn y tonnau fe glywodd Idris y neges. Nid felly un o'i gydforwyr. "What was that"? "It was the captain," medde Idris "He said that the war is over." "Oh good!" oedd yr ymateb "Who won?".

Wedi'r rhyfel fe ddychwelodd Idris i'w gynefin gan hyfforddi i fod yn beiriannydd ac astudio'n rhan-amser am radd Beirianyddiaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Symudodd i weithio i Middlesborough gan ddychwelyd ar benwythnosau i Lerpwl. Byddai ei rieni yn gwahodd pobol ifanc o'r capel i ddod adre gyda nhw am ginio neu swper ac i fod yn gwmni i'w chwaer, Enid. A dyna sut y daeth Eluned i'w sylw. Ac fe ddaeth y newid!

Yr hyn a ddenodd Eluned ato yn y lle cynta, gan mai un prin ei eiriau oedd e bryd hynny, oedd y ceir mawr roedd o'n ddreifio. Wedi cyfnod o reidio moto-beic yr oedd y rebel wedi cymryd at geir mawr pwerus. A buan y datblygodd ei hoffter hefyd at yr un fu'n gannwyll ei lygad. Yn ei gartref olaf yn y Manor House yn St Hilari fe ofynnwyd iddo a fyddai'n newid unrhyw beth am ei fywyd pe cai gyfle. "O byddwn," meddai "sawl peth. Ond un peth na fyddwn i fyth yn newid fyddai fy nghymar, Eluned".

'Y gŵr a adawodd wên'.

Mwyn yw'r cyfarch brwd,
llawen yw ein coflaid,
ond o'r hyn sy'n aros yn ein cof
Y wên yw perl yr enaid.

Mae estyn llaw yn win,
ac adnabod yn y llygaid,
ond o'r hyn sy'n aros yn ein cof
y wên yw perl yr enaid.

Emyr Edwards

I'r Alban

Un peth y bu'n rhaid iddo ei newid oedd ei gar! Fedre fe ddim fforddio car mawr ar ôl dyweddïo a phriodi ac yna symud i weithio i'r Scottish Hydroboard. Cyn symud tŷ i Glasgow, roedd yn rhaid wrth gar mwy eto. A'r rheswm pennaf oedd y ffaith fod y teulu yn cynyddu. Yno, yn Glasgow, y ganwyd Sian.

Dyma'r adeg y bu'n gyfrifol am osod y garthen drydan o dan dyweirch cae rygbi Murrayfield. Gwnaeth gymwynas fawr â Chymru ac â Chleif Rowlands oherwydd adeg gaeaf oer 1963, pan rewodd popeth am naw wythnos, *the Ice-age winter*, fe lwyddwyd i chwarae yn erbyn yr Alban fis Chwefror ym Murrayfield a Chymru'n ennill yno am y tro cyntaf ers deng mlynedd, diolch i gicio capten Cymru, Clive Rowlands a diolch i'r garthen – ac felly diolch i Idris!

I Gymru

Ond roedd gwell i ddod. A chyfle i ddod i Gymru i fyw,. Ganol y chwedegau fe gafodd swydd gyda Bwrdd Trydan De Cymru gan ddringo i fod yn Ddirprwy Brif-Beiriannydd cyn ei ymddeoliad cynnar. Yna bu'n Ymgynghorwr ar adeiladu Gorsafoedd Pŵer yn Saudi Arabia a'r Oman – rhoi trydan yn yr anialwch!

Daeth ag egni hefyd i fywyd Cymraeg Radur. Bu'n gefnogol i'r Ysgol Feithrin o'r dechrau ym Mhentre-poeth. Gydag Eluned yn helpu yno wrth i'r ysgol symud i Radur daeth Idris i wybod popeth am y plant.

Pan oedd angen codi arian, cefnogai bopeth – y capel, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, addysg Gymraeg, ieuenctid yr ardal, Plaid Cymru (gan gynnwys rhedeg disco ym Mhentre-poeth nes i'r heddlu ei rwystro).

Dyn positif. Fe siaradai yn bositif. "Sut ydech chi Idris"? "Yn dda iawn." A hynny hyd y diwedd. Tystiolaeth y Cartref yn Sain Hilari oedd ei fod wedi eu cadw nhw i fynd – "*he kept us going."* Fe'n cadwodd ni i fynd ym Methlehem 'ma hefyd. Yr oedd yn ffefryn gan bawb. Roedd ei lygaid yn pefrio, a'r wên yn lledu'n ddireidus ddisgwylgar ac wrth ei fodd efo tynnu coes.

PRIODASAU YM METHLEHEM

(uchod) Branwen (Rose gynt!) a Paul Biggs ar achlysur eu priodas ym Methlehem.

Luned (Clement gynt) a David Walters –ar achlysur eu priodas ym Methlehem.

BEDYDD

Ar Sul Cymun mis Hydref bedyddiwyd Gwion, mab Iwan ac Anwen Ellis, Gwaelod-Y-Garth. Hefyd, yn y llun, gwelir y ddau frawd mwy, sef Gruffydd a Morgan. ynghyd â'r gweinidog, Y Parchedig Ddr R. Alun Evans.

~~~~~~~~~~

CASGLIAD BANGLACYMRU YN CYRRAEDD £3,600

Yn ystod swper haf Bethlehem, trosglwyddwyd casgliad y capel at waith BanglaCymru i Wil Morus Jones. Roedd y gronfa wedi cyrraedd y swm rhyfeddol o £3,600 (heb gynnwys rhoddion uniongyrchol a mandad banc) a Wil, fel yr aelodau, wrth ei fodd. Fel dwedodd o wrth dderbyn y siec, bydd hyn yn talu am driniaeth i 34 o blant cyn diwedd y flwyddyn, a chynnig dyfodol llawer iawn gwell iddyn nhw.
~~~~~~~~~~

Llongyfarchiadau i'r canlynol

- Ar sail ei radd mewn cerddoriaeth (BMus), cafodd Ieuan Wyn, ei urddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau eleni. "Macsen" yw ei enw yn yr Orsedd. Uchod fe'i gwelir yn cael ei gyfarch gan aelod arall cyfarwydd o'r Orsedd – sef "Robert Alun"
- Dechreuodd Ann Hughes, Pentre-poeth, ar yrfa newydd, yn fuan wedi iddi basio ei Lefel A mewn Cymraeg eleni a gadael ei swydd fel "Physio" yn y Gwasanaeth Iechyd. Mae hi bellach yn Gynorthwyydd Dosbarth yn Ysgol Gwaelod y Garth.
- Mae Sioned Davies Scott, Meisgyn, wedi ei derbyn fel myfyrwraig yn Rhydychen.
- Mae Caryl Pollard, Radur, wedi dyweddïo. Mae Hywel Roberts, Pentyrch, yntau wedi dyweddïo ym Mhatagonia.

Cafodd Arwel Ellis Owen ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Gofal Cymru am gyfnod o 4 blynedd. Dyma'r corff sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol

~~~~~~~

CROESO I:

- ***MEGAN HAF*** *– wyres newydd yn Llundain i Margaret ac Arwel Ellis Owen, Creigiau.*
- ***CAI*** *– ŵyr newydd arall i Carol a Huw Llywelyn Davies, Pentyrch.*

~~~~~~~~~

Dewis Elusen am 2009/10

Mudiad y "Motor Neurone Disease Association" a ddewiswyd gennych fel Elusen y Flwyddyn 2009/10, yn y bleidlais ar ddiwedd yr oedfa fore Sul ddiwedd Gorffennaf. Roedd y diweddar Idris Hughes yn dioddef o'r cyflwr hwn sy'n ymosod ar y niwronau echddygol uchaf ac isaf ac yn achosi dirywiad yn y cyhyrau a cholli'r gallu i symud yr aelodau, trafferthion gyda'r lleferydd, llyncu ac anadlu. Dyma'r unig fudiad sy'n cynnig cymorth i'r dioddefwyr a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw a hyrwyddo ymchwil i'r hyn sy'n ei achosi ac i chwilio am wellhad.

Cyfeiriad ein gweinidog :

Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,

Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove,

Yr Eglwys Newydd,

Caerdydd CF14 2BW

Ffôn: 02920 520 854

e-bost: ralun.evans@virgin.net
~~~~~~~~~

Y Cwrdd Diolchgarwch

Gwaith Louis Braille yn datblygu system ddarllen i'r deillion oedd thema anerchiad Eirlys Davies, Radur, i'r plant yn ystod y Cwrdd Diolchgarwch. Roedd hyn yn cyplysu'r thema â'r casgliad a wnaed yn sgil "Taith Teulu Ian ac Ann Hughes" tuag at gael fersiwn Braille o rannau o'r Beibl yn Gymraeg.
Isod gwelir Eirlys yn cael help Mali i geisio "darllen" llythrennau drwy ddefnyddio blaenau bysedd.

Eirlys Lamb, Llantrisant, sydd wedi gweithio gyda'r deillion gan ddefnyddio Braille, yn disgrifio'r wyddor Braille a sôn am rai o'r llyfrau i blant sydd ar gael mewn Braille yn Gymraeg.

Heulwen Jones, Yr Eglwys Newydd, fu'n trefnu ac arwain y gwasanaeth diolchgarwch. Hi a'r athrawon eraill fu hefyd yn hyfforddi plant Yr Ysgol Sul ar gyfer y gwasanaeth.

I'ch dyddiadur

Dyma i chi rai o ddyddiadau rhaglen Pwyllgor Cristnogaeth Ymarferol, Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Beth am eu rhoi yn eich dyddiadur nawr!

6.12.09

Canu carolau o amgylch y pentref
[Ar ôl y Naw Llith a Charol]

13.12.09

Diod a Mins Peis yn y Festri
(Radur a Dwyrain Caerdydd i drefnu)
[Ar ôl y Cymun]

28.2.10

'Blas o Gymru'
(bara, caws, bara brith ag ati yn y festri
[Ar ôl y Gwasanaeth Gwyl Ddewi]

Mis Mai

Cyngerdd i'w drefnu

11.7.10

Swper Haf

[Bydd yr elw o'r uchod yn mynd i elusen Motor Neurone er cof am y diweddar Idris Hughes.]

Y ddwy bererindod.....

Ian, Ann, Dylan ac Elinor yn

Dilyn ôl troed Mari Jones

*** ***

Yng ngeiriau Dylan

Roedd y daith yn dda iawn a mi wnaethon ni weld llawer o fywyd gwyllt, yn enwedig cwningod. Roedd y daith braidd yn fwdlyd oherwydd roedd wedi bod yn bwrw glaw yn y diwrnodau blaenorol. Pan wnes i gyrraedd Llanuwchllyn, roedd yn dda gweld fy mam, Ann, ac hefyd fy chwaer fechan Elinor – y ddwy wedi bod yn ymlacio drwy'r dydd, a daethon nhw i Lanuwchllyn ar y trên ager. Gan osgoi'r demtasiwn i fynd nôl i'r Bala ar y trên, mi wnaethon ni i gyd gydgerdded i'r lle y gorffennodd Mari Jones ei thaith.

(Dylan, 10 ¾)

(Uchod) Teulu'r Hughesiaid ar ôl cyrraedd maes yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddiwedd eu taith

*** ***

Stori Elinor

Roedd y daith yn un bleserus iawn yn fy marn i, bydden ni bendant yn ei cherdded hi eto. Roedd y golygfeydd yn odidog. Er mai dim ond diwedd y daith gerddon ni, fe wnes i fwynhau'r profiad yn fawr iawn.

(Elinor, 8 ½)

Llongyfarchiadau i Ian, Ann, Dylan ac Elinor. A gobeithio y bydd eu hymdrech o fudd i'r deillion i ddarllen Gair Duw.

RAE

Yng ngeiriau Ian

Y dyddiau 'ma, bydd cerdded 26 (wel, 27 ar ôl mynd ar goll) milltir yn fwy o sialens i mi nag oedd e ddegawd yn ôl. Felly, o'n i'n falch i ni benderfynu cymryd dau ddiwrnod ar gyfer y daith. Roedd y golygfeydd dros y mynyddoedd yn ysblennydd ac roedden ni'n lwcus dros ben gyda'r tywydd ar ôl yr holl law ym Mis Gorffennaf. Roedd cyfle i mi fyfyrio yn ystod y daith am yr holl newidiadau sy' wedi digwydd yn yr ardal hon, ond roedd y bwrlwm o Gymreictod yn Llanuwchllyn yn codi'r galon. 'Dw i'n tueddu i gymryd yn ganiataol bod Dylan yn heini ac yn gallu gwneud pethau fel hyn yn hawdd, ond rhaid i mi dderbyn ei bod hi'n dipyn o her i fachgen deng mlwydd oed i gerdded 17 milltir mewn diwrnod! Ac hefyd 'dw i'n gwerthfawrogi ymdrechion glew Elinor ac Ann ar ddiwedd y daith. Byddai'n anghywir i mi ddweud mod i'n synnu at haelioni'r aelodau yng Nghapel Bethlehem, ond yn sicr 'dw i'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu cefnogaeth.

(Ian, 48 ½)

Huw Roberts yn disgrifio'i fwriad i ddilyn

Llwybrau Dewi

Yn dilyn llwyddiant fy Mhererindod i Santiago de Compostela yn 2007 pryd y codais £9,000 i elusennau, 'rwy'n gobeithio cwblhau ail bererindod dros gyfnod y Pasg 2010. Y bwriad yw dilyn traed ein nawddsant a'r pererinion i Dŷ Ddewi.

Bydd y daith yn cychwyn yn Llanddewi Brefi ar ddydd Mawrth 30ain 2010. Dyma lle y cododd y ddaear wrth i Dewi bregethu i gynulleidfa fawr. Y diwrnod canlynol byddwn yn cychwyn o Hen Fynyw, y tu allan i Aberaeron, lle derbyniodd Dewi ei addysg, a'r diwrnod wedyn, Ebrill 1af (Pen-blwydd Priodas Ruddem fy rhieni) cychwyn o Eglwys Dewi Sant, Blaenporth, ger Aberporth.

Ar ddydd Gwener y Groglith, y bwriad yw cerdded o Eglwys hanesyddol Trewern (Nanhyfer) i Eglwys Mathry ar arfordir Gogledd Sir Benfro.

Pen y Daith

Ar Sadwrn y Pasg daw'r daith i ben yn Nhyddewi, a 6 milltir o'r diwedd, byddaf yn mynd heibio man cyfarfod ola'r pererinion, Mesur y Dorth, ger Croes-goch. Mae'n debyg mai dyma'r lle olaf i'r pererinion

olaf. Hoffwn gael cynifer o bobol â phosib i ymuno gyda mi ar ran ola'r daith, mae croeso i bawb!

Mae gan fy nheulu gysylltiad cryf gyda'r Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi, ac mae mrawd wedi darganfod bod 5 aelod o deulu Roberts wedi bod yn gwasanaethu yn y Gadeirlan yn y 1600au a'r 1700au. Golyga hyn bod y teulu Roberts wedi darparu Gweinidogion a neu Ficeriaid am bum canrif yn olynol, a Nhad yn dal i Weinidogaethu yng Nghapel Harmoni, Abergwaun, ac yntau'n 84.

Fel yn 2007, mae'r daith ar gyfer elusennau, a'r brif elusen fydd Sefydliad Prydeinig y Galon gan fod fy nhad wedi cael 3 'pacemaker' yn ystod y 12 mlynedd diwethaf.

Os oes unrhyw un am ymuno gyda mi ar rannau o'r daith, mae croeso i chi wneud hynny. Os hoffech gerdded, yr unig gais yw eich bod yn gwneud cyfraniad i Sefydliad Prydeinig y Galon. 'Does dim gwrthwynebiad gen i os hoffech godi arian i elusen sy'n agos atoch cyn belled â bod cyfraniad teilwng yn cael ei wneud i Sefydliad Prydeinig y Galon.

Bydd pob taith yn cael ei rhannu'n ddwy, felly bydd opsiwn o daith hirach/byrrach ar gael bob dydd.

Ar y Teledu!

Rhai wythnosau nôl derbyniais alwad gan y BHF (Sefydliad Prydeinig y Galon) i ymddangos o bosib ar deledu mewn hysbyseb a noddir gan Vodafone, y cwmni sy'n noddi Secret Millionaire am 9.00pm ar nos Fercher ar Sianel 4. Aeth y ffilmio'n dda, ac mae'r "hysbys" wedi ei ddangos bellach ar y teledu. Mae hyn wedi rhoi hwb annisgwyl a sydyn i'r bererindod a'r ymgyrch. Bydd mwy o fanylion ar gael ar y wefan: www.huwrobertspilgrimage.co.uk

Gellir cyfrannu ar lein trwy original.justgiving.com/huwrobertspilgrimage neu trwy ddanfon siec at fy nghyfeiriad cartre, yn daladwy i Sefydliad Prydeinig y Galon/British Heart Foundation os gwelwch yn dda.

Huw Roberts

~~~~~~~~~~~~~~

Y ddau lun ar y chwith:
Rhai o ddisgyblion iau yr Ysgol Sul yn ystod y Cwrdd Diolchgarwch.

~~~~~~~~~~~~~~

Suliau hyd fis Rhagfyr 2010

Oni nodir yn wahanol - gwasanaethau am 10.30

TACHWEDD
1 Parchg. Gareth Reynolds
8 Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
15 Gwasanaeth Ardal
Gorllewin Caerdydd
22 Parchg. R. Alun Evans
29 Parchg. D.H.Owen

RHAGFYR
6 Bore – ymweld â chartre'r henoed
Hwyr – [am 5.00]: Naw Llith a Charol
[Canu carolau yn y pentref]
13 Bore – Ymarfer i'r Plant
Hwyr – Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
[Diod a mins peis yn y festri]
20 Gwasanaeth Nadolig y Plant
25 [am 10.00]: Gwasanaeth Bore Nadolig
27 Parchg. R. Alun Evans

IONAWR
3 Emlyn Davies Pentyrch
10 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
Plygain am 4:30pm
17 Y Parchg. D. Hugh Mathews
24 Y Parchg. R. Alun Evans
31 Gwasanaeth Ardal,
Pentyrch

CHWEFROR
7 Y Parchg. Gareth Reynolds
14 Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
21 Y Parchg. Gwilym Dafydd
28 Y Parchg. R. Alun Evans
(Gwasanaeth Gwyl Ddewi)
[Blas o Gymru yn y festri wedyn]

MAWRTH
7 Y Parchg. Ieuan Davies
14 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
21 Gwasanaeth Ardal,
Gogledd a Dwyrain, Caerdydd
28 Y Parchg. R. Alun Evans

EBRILL
2 - Gwasanaeth y Groglith
4 (Sul y Pasg) Oedfa yng ngofal yr aelodau
11 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
18 Y Parchg. Hywel W. Richards
25 Y Parchg. R. Alun Evans

MAI
2 Y Parchg. Haydn Thomas
9 Y Parchg. R. Alun Evans
(Cymun a derbyn aelodau ifanc)
16 Sul Cymorth Cristnogol
23 Mr Eifion Hopwood
30 Y Parchg. Lona Roberts

MEHEFIN
6 Gwasanaeth Ardal,
Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf, Tongwynlais
13 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
20 Dr Eirian Dafydd
27 Y Parchg. R. Alun Evans

GORFFENNAF
4 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
11 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
18 Sul Cyfundeb
25 Y Parchg. R. Alun Evans

AWST
1 Efail Isaf
8 Bethlehem
15 Efail Isaf
22 Bethlehem
29 Efail Isaf

MEDI
5 Miss Eirwen Richards
12 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
19 Y Parchg. R. Allan Pickard
26 Y Parchg. R. Alun Evans

HYDREF
3 Y Parch Jeff Williams
10 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
17 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
24 Y Parchg. R. Alun Evans
31 Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD
7 Gwasanaeth Ardal,
Radur.
14 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
21 Y Parchg. John Gwilym Jones
28 Y Parchg. R. Alun Evans

RHAGFYR
5 Ymweld â Chartre Henoed yn y bore.
(hwyr) *Naw Llith a Charol*
12 Y Parchg. R. Alun Evans Cymun am 5yh
19 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
25 [am 10.00]: Gwasanaeth Bore Nadolig
26 Y Parchg. R. Alun Evans

Cydymdeimlwn â'r canlynol:

- **Sian** a theulu'r diweddar **Idris Hughes**;
- **Marian Evans** – wedi colli ei brawd yng nghyfraith;
- **Peter Wynn Thomas** - wedi colli modryb;
- **Alwyn Harding Jones** - wedi colli modryb;
- **Wyn Jones** - wedi colli modryb.

Gwella

- Da deall bod Mary Slade yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar.
- Felly hefyd Aran, brawd bach A'ine, ŵyr Cath ac Emyr Edwards, ar ôl ei driniaeth yn Nhreforys.
- Mae Brian ac Enid Davies ac Eirlys Lamb, i gyd wedi gwella ar ôl eu triniaethau hwythau.

"Gwe"-lod y Garth

Mae llawer rhagor o wybodaeth nag sy'n y bwletin hwn, i'w gael ar ein gwefan:

www.gwe-bethlehem.org

Cewch fanylion am weithgareddau Bethlehem; enwau'r pwyllgorau a'r cymdeithasau, y swyddogion a llawer iawn mwy!

Gwnewch ddefnydd o'r dechnoleg. Gwell fyth, byddwch wyrddach drwy ddarllen y Bwletin yn y fan honno! Mantais arall, ydi gallwch chi gynyddu maint y dudalen a'r print fel mynnoch chi.

Er mwyn annog rhagor ohonoch i dderbyn eich copi drwy neges e-bost, rydyn ni'n anfon neges at bawb sydd wedi rhoi eu cyfeiriad electronig i ni. Ond gallwn gynnig copi lliw llawn ar bapur i unrhyw un sy'n gwneud cais amdano.

Rhoi archif Bethlehem ar y we:

Oes ganddoch chi luniau neu hanesion Bethlehem cyn dyddiau sefydlu'r wefan? Os oes, beth am eu rhannu â phawb arall, drwy eu hanfon naill ai'r at yr Athro Peter Wynn Thomas neu at Wyn Jones.